**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref

Peredur Owen Griffiths MS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
SeneddCyllid@senedd.cymru

15 Ionawr 2024

Annwyl Peredur

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr yn gofyn am adolygiad o Brotocol presennol y Gyllideb.

Rwyf yn croesawu'r ymgysylltiad adeiladol parhaus ar y Protocol, gan gynnwys ar lefel swyddogol, ac rwyf wedi bod yn falch o gytuno ar sawl un o'ch cynigion blaenorol ar gyfer newidiadau i'r Protocol, y mae rhai ohonynt yn cydnabod newidiadau i'n harferion sydd wedi'u mabwysiadu'n anffurfiol. Er hynny, nodaf o'ch llythyr fod cynigion eraill lle nad ydym wedi llwyddo i gytuno ar ffordd ymlaen. Roedd eich llythyr hefyd yn cynnwys cynigion pellach gan y Pwyllgor Cyllid ar gyfer newidiadau i'r Protocol.

Fel y dywedais yn fy llythyr dyddiedig 20 Gorffennaf 2023, hoffwn awgrymu y dylem geisio gwneud y newidiadau i'r Protocol a'r Rheolau Sefydlog y gallwn gytuno arnynt fel un pecyn cyfunol o newidiadau yn hytrach na cheisio cymeradwyaeth y Senedd mewn modd mwy tameidiog. Rwyf yn credu y byddai'n ddefnyddiol inni barhau i ystyried cynigion ein gilydd gan ddisgwyl y gallwn gytuno ar ddull unedig o ddiwygio'r Protocol cyn toriad yr Haf.

Rwyf yn credu y byddai'n ddefnyddiol pe bawn yn cyflwyno sylwadau ar hyn o bryd ar eich cynnig y dylid trefnu i'r ddadl ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru gael ei chynnal ar adeg heblaw cyn toriad yr haf bob blwyddyn. Rwy'n cydnabod bod rhesymau pam y byddai dadl ddiweddarach yn ddymunol, ac mae hyn yn tynnu sylw at her amserlen ein cyllideb sy'n cael ei heffeithio gan amseriad digwyddiadau cyllidol Llywodraeth y DU, ac sy'n gysylltiedig â hwy. Er hynny, mae amserlennu'r ddadl cyn toriad yr haf yn rhoi'r cyfle gorau posibl i'r Senedd helpu i lunio blaenoriaethau'r Llywodraeth ar y Gyllideb yn gynnar yn ein paratoadau, tra byddai ei gadael tan dymor yr hydref yn golygu y byddem ymhellach ymlaen yn ein paratoadau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Ar ôl ystyried ymhellach y trefniadau presennol sy'n cydnabod pwysigrwydd ystyriaeth y Senedd ar gyfer pennu cyfraddau treth incwm ochr yn ochr ag ystyried Cynnig y Gyllideb Flynyddol, gallaf gadarnhau nad ydym yn cynnig cyflwyno unrhyw gynigion pellach mewn perthynas â hyn ar hyn o bryd.

Dangosodd ein trafodaethau yn ystod yr Haf ein bod yn gweithio tuag at nod cyffredin a bod unrhyw gynigion a wneir naill ai gan y Pwyllgor neu Lywodraeth Cymru yn cael eu gwneud gyda bwriadau cadarnhaol. Byddaf yn gofyn i'm swyddogion gysylltu â chlerc y Pwyllgor i fwrw ymlaen â'r trafodaethau hyn.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**